



Veterinary  
Medicines  
Directorate



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government



The Scottish  
Government



Department  
for Environment  
Food & Rural Affairs

# Ymgynghoriad ar daliadau diwygiedig ar gyfer y Rhaglen Rheoli Gweddillion Genedlaethol

Ionawr 2024



© Hawlfraint y Goron 2024

Mae'r wybodaeth yma wedi'i thrwyddedu o dan Drwydded Llywodraeth Agored v3.0. I weld y drwydded yma, ewch i'r [Archifau Gwladol](#).

Mae'r cyhoeddiad yma ar gael yn Gov.uk.

Dylai unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad yma gael eu hanfon at [residues@vmd.gov.uk](mailto:residues@vmd.gov.uk).

## Cynnwys

Gwybodaeth gyffredinol .....	5
Pam rydyn ni'n ymgynghori .....	5
Manylion yr ymgynghoriad.....	5
Sut i ymateb .....	5
Cyfrinachedd a diogelu data.....	6
Amdanoch chi.....	8
Crynodeb gweithredol .....	9
Yr angen i newid y ffioedd.....	10
Opsiynau'r ymgynghoriad cyhoeddus .....	10
Tabl 1: costau'r NRCP .....	13
Graff 1: costau'r NRCP (£000au).....	14
Tabl 2: newidiadau arfaethedig i Atodlen 1.....	15
Tabl 3: enghraifft ddarluniadol o effaith ariannol debygol y cynigion ar sector nodweddiadol yn yr NRCP .....	16
Tabl 4: enghraifft ddarluniadol o effaith ariannol debygol y cynigion ar gynhyrchydd nodweddiadol yn yr NRCP .....	17
Yr effaith ddisgwyliedig ar fusnesau .....	18
Cefndir .....	19
Casglu a dadansoddi samplau .....	19
Cyd-destun deddfwriaethol a thiriogaethol .....	20
Tabl 5: lleoliad rhanbarthol rhanddeiliaid yn yr NRCP .....	21
Graff 2: lleoliad rhanbarthol rhanddeiliaid yn yr NRCP .....	22
Elfennau cost yr NRCP.....	23
Rôl asiantaethau casglu .....	23
Sut mae'r taliadau'n cael eu cyfrifo ar gyfer pob sector .....	24
Llaeth.....	24
Cig coch a chig dofednod.....	25
Pysgod .....	25

Cig hela .....	26
Wyau .....	26
Gwerth am arian .....	28
Archwiliadau allanol.....	28
Ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus yma .....	29
Geirfa .....	30

# Gwybodaeth gyffredinol

## Pam rydyn ni'n ymgynghori

Mae'r ymgynghoriad yma yn ymwneud â diwygiadau arfaethedig i'r taliadau ar gyfer cyflwyno'r Rhaglen Rheoli Gweddillion Genedlaethol (NRCP). Mae hon yn rhaglen wylidwriaeth flynyddol statudol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban i samplu a phrofi cynhyrchion anifeiliaid bwyd, i chwilio am weddillion meddyginiaethau milfeddygol a sylweddau gwaharddedig cyn iddyn nhw fynd i'r gadwyn fwyd. Mae angen y taliadau newydd arfaethedig er mwyn adennill y costau llawn, ac i sicrhau bod yr NRCP yn dal yn effeithiol ac yn hyfyw.

## Manylion yr ymgynghoriad

Wedi'i gyhoeddi: 17/01/2024

Ymatebwch erbyn: 28/03/2024

Ymholiadau i: [residues@vmd.gov.uk](mailto:residues@vmd.gov.uk) neu Residues Team, Veterinary Medicines Directorate, Woodham Lane, Addlestone, KT15 3LS

Cyfeirnod yr ymgynghoriad: Diwygio Taliadau ar gyfer Rheoliadau Gwylidwriaeth Gweddillion 2006

Cynulleidfaoedd: Gweithredwyr busnesau bwyd yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.

Rhychwant: Mae'r ymgynghoriad yma yn cael ei gynnal gan y VMD mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.

## Sut i ymateb

Y ffordd rydyn ni'n ei ffafrio yw derbyn ymatebion yw trwy lwyfan CitizenSpace.

Os na allwch ddefnyddio CitizenSpace, gallwch lawrlwytho'r dogfennau ymgynghori a dychwelyd eich ymateb trwy'r e-bost at [residues@vmd.gov.uk](mailto:residues@vmd.gov.uk).

Mae'r ymgynghoriad yma yn cymhwyso Safonau'r Gymraeg, felly mae yna gyfle i'r ymatebwyr ymateb yn Gymraeg.

## Cyfrinachedd a diogelu data

Bydd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yma yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Llywodraeth yn: [www.gov.uk/defra](http://www.gov.uk/defra). Bydd atodiad i grynodedd yr ymgynghoriad yn rhestru'r holl sefydliadau a ymatebodd ond ni fydd yn cynnwys enwau personol, cyfeiriadau na manylion cyswllt eraill.

Gall Defra, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban gyhoeddi cynnwys eich ymateb i'r ymgynghoriad yma er mwyn sicrhau ei fod ar gael i'r cyhoedd heb eich enw personol a'ch manylion cyswllt preifat (er enghraifft cyfeiriad cartref, cyfeiriad e-bost).

Os byddwch yn clicio ar 'Hoffwn' mewn ymateb i'r cwestiwn yn gofyn a hoffech i unrhyw beth yn eich ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, gofynnir ichi nodi'n glir pa wybodaeth yr hoffech ei chadw'n gyfrinachol ac egluro'ch rhesymau dros gyfrinachedd. Y rheswm am hyn yw y gallai gwybodaeth mewn ymateb i'r ymgynghoriad yma fod yn agored i'w rhyddhau i'r cyhoedd neu bartion eraill yn unol â'r gyfraith ar weld gwybodaeth (sef yn bennaf Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol (EIRs) 2004, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (Deddf 2000) a Deddf Diogelu Data 2018 (Deddf 2018)). Mae gennyn ni rwymedigaethau, yn bennaf o dan yr EIRs, Deddf 2000 a Deddf 2018, i ddatgelu gwybodaeth i dderbynwyr penodol neu i'r cyhoedd mewn rhai amgylchiadau. O gofio hyn, byddai'ch esboniad o'ch rhesymau dros ofyn am gyfrinachedd ar gyfer y cyfan neu ran o'ch ymateb yn ein helpu i gydbwyso'r rhwymedigaethau hyn ynglŷn â datgelu o'i gymharu ag unrhyw rwymedigaeth ynglŷn â chyfrinachedd. Os cawn gais am yr wybodaeth rydych chi wedi'i rhoi yn eich ymateb i'r ymgynghoriad, byddwn yn rhoi ystyriaeth lawn i'ch rhesymau dros ofyn am gyfrinachedd i'ch ymateb, ond allwn ni ddim gwarantu bod modd cadw cyfrinachedd o dan bob amgylchiad.

Os cliciwch ar 'Na hoffwn' mewn ymateb i'r cwestiwn yn gofyn a hoffech i unrhyw beth yn eich ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, byddwn yn gallu rhyddhau cynnwys eich ymateb i'r cyhoedd, ond fyddwn ni ddim yn trefnu bod eich enw personol a'ch manylion cyswllt preifat ar gael i'r cyhoedd.

Efallai y bydd achlysuron pan fydd Defra yn rhannu'r wybodaeth rydych chi'n ei rhoi mewn ymateb i'r ymgynghoriad, gan gynnwys unrhyw ddata personol, gyda dadansoddwyr allanol a hynny er mwyn dadansoddi ymatebion i'r ymgynghoriad a darparu adroddiad ar y crynodeb o'r ymatebion yn unig.

Mae'r ymgynghoriad yma yn cael ei gynnal yn unol â dogfen Swyddfa'r Cabinet "[Consultation Principles](#)".

Gallwch weld ein hysbysiad preifatrwydd diweddaraf wedi'i uwchlwytho fel dogfen berthynol ochr yn ochr â'n dogfennau ymgynghori.

Os oes gennych unrhyw sylwadau neu gŵynion am y broses ymgynghori, byddwch cystal â'u cyfeirio at: [consultation.coordinator@defra.gov.uk](mailto:consultation.coordinator@defra.gov.uk).

## Amdanoch chi

1. Hoffech chi i'ch ymateb fod yn gyfrinachol? (Dewiswch un opsiwn yn unig)

- Hoffwn
- Na hoffwn
- Os ydych wedi ateb 'hoffwn', rhowch eich rheswm:

2. Ar ran pwy rydych chi'n ymateb? (Dewiswch un opsiwn yn unig)

- unigolyn – rydych chi'n ymateb gyda'ch barn bersonol, yn hytrach nag fel cynrychiolydd swyddogol i fusnes / cymdeithas busnes / sefydliad arall
- corff yn y sector cyhoeddus – mewn swydd swyddogol fel cynrychiolydd i sefydliad llywodraeth leol / darparwr gwasanaethau cyhoeddus / corff arall yn y sector cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig neu rywle arall
- diwydiant – mewn swyddogaeth swyddogol sy'n cynrychioli barn busnes
- grŵp ymgyrchu/NGO – mewn swydd swyddogol fel cynrychiolydd i sefydliad anllywodraethol / undeb llafur / sefydliad arall
- academia – mewn swydd swyddogol fel cynrychiolydd sefydliad academaidd
- arall (rhowch y manylion):

3. Pa un o'r canlynol yw'r disgrifiad gorau o'r rôl neu'r maes rydych chi'n perthyn iddo? (Os oes gennych sawl rôl, dewiswch yr un sy'n rhoi'r disgrifiad gorau o'ch buddiannau chi yn yr ymateb i'r ymgynghoriad yma) (Dewiswch un opsiwn yn unig)

- prosesydd bwyd
- gweithredydd busnes bwyd
- gweithredydd busnes bwyd anifeiliaid
- manwerthwr meddyginiaethau milfeddygol
- milfeddyg
- person â chymwysterau addas (SQP)
- academig
- defnyddiwr
- ceidwad proffesiynol anifeiliaid
- arall (rhowch y manylion):

4. Beth yw enw'ch sefydliad chi?

5. Dewiswch ble rydych chi/eich sefydliad wedi'i leoli (dewiswch bob un sy'n gymwys):

- Lloegr
- Gogledd Iwerddon
- Yr Alban
- Cymru
- arall



# Crynodeb gweithredol

Mae'r Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol (VMD) yn Asiantaeth Weithredol i'r Adran Bwyd, Amgylchedd a Materion Gwledig (Defra). Mae'r VMD yn rheoli'r [Rhaglen Reoli Gweddillion Genedlaethol](#) (NRCP), sy'n rhaglen statudol sydd wedi'i chynllunio i helpu i adnabod gweddillion sylweddau gwaharddedig, meddyginiaethau milfeddygol, a halogion mewn cynhyrchion sy'n deillio o anifeiliaid ac sydd wedi'u bwriadu ar gyfer y gadwyn fwyd. Mae'r NRCP yn helpu i ddiogelu iechyd pobl. Mae hefyd yn rhoi sicrwydd i bartneriaid masnachu'r Deyrnas Unedig ynghylch ansawdd a diogelwch cynhyrchion sy'n cael eu hallforio ac sy'n deillio o anifeiliaid. Mae'r rhaglen yn helpu i gynnal masnach ryngwladol sy'n werth rhyw £12 biliwn y flwyddyn i economi'r Deyrnas Unedig.

Mater datganoledig yw'r polisi ar weddillion a gwyliadwriaeth gweddillion ac felly mae'r VMD yn gweithio mewn partneriaeth agos â Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban i gyflawni'r NRCP ym Mhrydain Fawr.

Mae'r rhaglen yn gweithredu ar y sail bod y costau llawn yn cael eu hadennill, felly mae pob un o'r sectorau da byw sy'n cymryd rhan ynddi yn cael eu hanfonebu bob blwyddyn. Ar hyn o bryd mae'r rhaglen yn costio tua £5 miliwn y flwyddyn, a rhagwelir y bydd hyn yn cyrraedd rhyw £8m y flwyddyn erbyn 2028, a hynny oherwydd cynnydd yng nghostau gwasanaethau caffael sy'n angenrheidiol i ddarparu'r rhaglen fel samplu, profi a nwyddau traul. Heb y diwygiadau arfaethedig i'r costau presennol mae'r diwydiant yn eu talu, rhagwelir y bydd yna ddiffyg o £300,000 wrth adennill costau'r rhaglen yn y flwyddyn ariannol bresennol, a disgwylir i'r diffyg godi i £3 miliwn y flwyddyn erbyn 2029.

Nod yr ymarfer ymgynghori cyhoeddus yma ar y cyd gan y VMD, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban yw esbonio'n cynigion i gynyddu'r taliadau y bydd cyfranogwyr y diwydiant yn yr NRCP yn eu talu yn ystod blynyddoedd ariannol 2024 i 2025, a 2025 i 2026. Mae'r newidiadau arfaethedig i'w gweld yn Nhabl 2. Gan mai rhaglen statudol yw hon, er mwyn rhoi'r diwygiadau hyn ar waith byddai angen diweddarau Atodlen 1 i [Reoliadau Taliadau am Wylidwriaeth Gweddillion](#) (Atodlen 1). Gan fod hwn yn fater datganoledig, byddai Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth yr Alban yn gosod Offerynnau Statudol ar wahân i ymdrin â gweithredwyr busnesau bwyd yng Nghymru, Lloegr a'r Alban yn y drefn honno.

Mae'r VMD yn gweithio mewn partneriaeth ag arbenigwyr masnachol a'n partneriaid cyflenwi i sicrhau gwerth am arian yn yr NRCP a disgrifir crynodeb o'r gweithgaredd yma isod yn yr adran gefndir. Rydyn ni hefyd wedi rhoi gwybodaeth gefndir ychwanegol am gostau'r NRCP.

Does dim asesiad effaith rheoleiddiol llawn wedi'i gyhoeddi ochr yn ochr â'r ymgynghoriad yma, a hynny am fod swm y cynigion yn lai na £5 miliwn. At hynny, gan fod y cynigion hyn yn ymwneud â ffioedd statudol at ddibenion adennill costau, mae hyn y tu allan i'r fframwaith rheoleiddio gwell yn Lloegr (gweler tudalen 27 o'r [canllawiau rheoleiddio gwell](#)) a [chod effaith rheoleiddiol Gweinidoqion Cymru yng Nghymru](#) (paragraff 3.2)). Drwy'r

ymarfer ymgynghori cyhoeddus yma, mae VMD, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban yn gofyn am farn y rhanddeiliaid ar effeithiau ariannol ac effeithiau eraill posibl y cynigion hyn, a byddwn yn parhau i ymgymryd â gweithgareddau ymgysylltu â'r rhanddeiliaid.

Mae'r ymgynghoriad cyhoeddus yma yn ymwneud â chynigion i newid y taliadau statudol ar gyfer yr NRCP yn ystod blynyddoedd ariannol 2024 i 2025, a 2025 i 2026 yn unig. Mae awgrymiadau ehangach ynghylch diwygio swyddogaethau craidd yr NRCP fel y dulliau gwyddonol, y sylweddau milfeddygol rydyn ni'n profi amdanynt, neu amllder y gwaith samplu a phrofi y tu allan i rychwant yr ymgynghoriad yma. Y rheswm am hyn yw bod gan yr agweddau hyn sail statudol ar wahân (gweler yr adran gefndir) ac nid ydynt yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd.

## Yr angen i newid y ffioedd

1. Mae'r VMD yn bwriadu gwneud newidiadau i Atodlen 1 er mwyn adennill costau darparu'r NRCP tan y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ym mis Mawrth 2026. Bydd y VMD, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban yn dal i fonitro'r gwaith o gyflawni'r rhaglen ac yn ymgynghori'n gyhoeddus os oes angen diwygiadau pellach yn y taliadau yn y blynyddoedd i ddod.
2. Mae Tabl 1 yn dangos costau hanesyddol a rhagolygon costau'r NRCP hyd at y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ym mis Mawrth 2026. Yn ystod blwyddyn ariannol 2022 i 2023 cafwyd cynnydd o 9% yn y costau o'i chymharu â'r blynyddoedd blaenorol, ac rydym yn rhag-weld y ceir cynnydd o 17% yn y costau yn y flwyddyn ariannol 2023 i 2024. Rydym yn rhag-weld y bydd costau'n parhau i gynyddu 10% y flwyddyn ar gyfartaledd dros y pum mlynedd nesaf, a hynny oherwydd cynnydd anochel mewn gorbenion a chostau eraill fel samplu, prosesu a phrofi.
3. Mae Tabl 1 hefyd yn dangos, ar sail y cyfraddau yn yr Atodlen 1 bresennol, y bydd taliadau rhy isel yn arwain at ddiffyg o £300,000 yn ystod 2023 i 2024, £500,000 yn ystod 2024 i 2025 ac £1.5 miliwn erbyn 2025 i 2026. Er hynny, byddai'r diffyg yn gostwng i sero erbyn 2026 pe bai cyfraddau Atodlen 1 yn cael eu diweddarau fel y cynigir yn yr ymgynghoriad yma. Mae'r wybodaeth yma hefyd yn cael ei dangos gan y llinellau solet a thoredig ar Graff 1.

## Opsiynau'r ymgynghoriad cyhoeddus

4. Mae'r opsiynau canlynol wedi'u hystyried:
  - A. **gwneud dim.** Ni fydd Atodlen 1 yn newid, a byddai'r taliadau'n cael eu cynnal ar y lefelau presennol

- B. **cynnydd cyfradd unffurf o 65%** yn y taliadau yn Atodlen 1, a gymhwysir ar draws pob sector sy'n cymryd rhan yn yr NRCP
- C. **cynnydd canran penodol** wedi'i deilwra ar gyfer pob sector diwydiant ar sail eu cynllun samplu penodol a'u lefelau cynhyrchu

Ni fyddai **Opsiwn A** yn adennill y costau'n llawn. Byddai'r opsiwn yma felly'n bygwth hyfywedd yr NRCP sy'n angenrheidiol i helpu i ddiogelu iechyd pobl. Mae'r NRCP hefyd yn helpu i allforio cynhyrchion sy'n deillio o anifeiliaid ac sy'n werth £12 biliwn i economi'r Deyrnas Unedig, a gallai hyn gael ei gyfaddawdu heb weithredu.

Byddai **Opsiwn B** yn arwain at gynnydd anghymesur mewn ffioedd i rai sectorau gan barhau i adennill y costau mewn eraill. Mae'r lefelau cynhyrchu a'r costau samplu yn amrywio ym mhob pob sector felly, i bob pwrpas, byddai rhai sectorau yn rhoi croes-gymorthdaliadau i sectorau eraill.

Bernir mai **Opsiwn C** yw'r opsiwn mwyaf priodol a theg gan ei fod yn cydnabod nad oes gan bob sector yr un proffil costau, a hynny yn sgil y gwahanol drefniadau samplu a phrofi, sy'n cael eu penderfynu'n ofalus bob blwyddyn ar sail asesiadau risg a ffactorau eraill.

I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n hasesiad mai Opsiwn C yw'r dull mwyaf teg o ddiwygio Atodlen 1? Rhowch resymau dros eich ateb.

- cytuno'n gryf
- cytuno
- niwtral
- anghytuno
- anghytuno'n gryf
- ddim yn gwybod

Oes gennych chi unrhyw bryderon ynghylch gweithredu opsiwn C?

5. Mae Tabl 2 yn dangos y newidiadau arfaethedig i Atodlen 1 ar sail opsiwn C. Rydyn ni wedi defnyddio'r rhagdybiaethau a ganlyn:

- mae'r lefelau cynhyrchu a ragwelir ar gyfer pob math o gynnyrch anifeiliaid neu anifeiliaid wedi'u seilio ar lefelau cyfartalog 2021 i 2023
- rhagwelir y bydd costau contractau allanol yn cynyddu 10% bob blwyddyn
- bydd tîm y VMD sy'n gyfrifol am reoli'r NRCP yn aros yn statig o ran maint am y 5 mlynedd nesaf
- rhagwelir y bydd costau cyflogaeth a gorbenion yn cynyddu 5% bob blwyddyn
- bydd y cyfraddau newydd arfaethedig yn dod i rym o Hydref 2024.


6. Mae Tabl 3 a Tabl 4 yn enghraifft ddarluniadol o effaith ariannol debygol y cynigion hyn ar sector nodweddiadol ac ar gynhyrchydd nodweddiadol yn yr NRCP.

Oes unrhyw ffactorau eraill y dylai Llywodraeth y Deyrnas Unedig, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban eu hystyried?

**Tabl 1: costau'r NRCP**

Blwyddyn ariannol	2017 i 2018	2018 i 2019	2019 i 2020	2020 i 2021	2021 i 2022	2022 i 2023	2023 i 2024	2024 i 2025	2025 i 2026
	£ miliwn	£ miliwn	£ miliwn	£ miliwn	£ miliwn	£ miliwn	£ miliwn	£ miliwn	£ miliwn
Cyfanswm cost NRCP: Lloegr	2.7	2.7	2.9	2.8	2.9	3.1	3.7	4.3	4.6
Cyfanswm cost NRCP: Cymru	0.3	0.3	0.3	0.3	0.3	0.3	0.4	0.5	0.5
Cyfanswm cost NRCP: Yr Alban	0.5	0.6	0.6	0.6	0.6	0.6	0.8	0.9	0.9
Cyfanswm cost NRCP	3.5	3.6	3.8	3.7	3.8	4.1	4.9	5.6	6.1
Incwm a ganiateir gan Atodlen 1	3.5	3.6	3.8	3.7	3.8	4.1	4.6	4.6	4.6
Adennill costau a ganiateir gan Atodlen 1	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	-0.3	-1.0	-1.5
Incwm a ganiateir gan gynigion yr ymgynghoriad cyhoeddus yma	d/g	d/g	d/g	d/g	d/g	d/g	4.6	5.1	6.1
Adennill costau a ganiateir gan gynigion yr ymgynghoriad cyhoeddus yma	d/g	d/g	d/g	d/g	d/g	d/g	-0.3	-0.5	0.0

## Graff 1: costau'r NRCP (£000au)



Gweler paragraff 3 sy'n esbonio'r tueddiadau a nodir gan y graff yma.

**Tabl 2: newidiadau arfaethedig i Atodlen 1**

Math o anifail neu gynnyrch anifeiliaid	Rheoliadau Taliadau am Wylriadwriaeth Gweddillion (Diwygio) 2011 (£)	Taliadau arfaethedig (£) yn 2024 - 2025	Cynnydd gwirioneddol (£)	Taliadau arfaethedig (£) yn 2025 - 2026	Cynnydd gwirioneddol (£)
Buchol	0.5106 y carcass	0.7007 y carcass	0.1901 y carcass	0.7617 y carcass	0.0610 y carcass
Gafr	0.0507 y carcass	0.0691 y carcass	0.0184 y carcass	0.0751 y carcass	0.0060 y carcass
Dafad	0.0507 y carcass	0.0691 y carcass	0.0184 y carcass	0.0751 y carcass	0.0060 y carcass
Anifeiliaid carngaled	0.3536 y carcass	0.4287 y carcass	0.0751 y carcass	0.4660 y carcass	0.0373 y carcass
Moch	0.0543 y carcass	0.0676 y carcass	0.0133 y carcass	0.0735 y carcass	0.0059 y carcass
Cig hela a chig hela wylt	1.0461 y dunnell	1.0461 y dunnell	0 y dunnell	1.0461 y dunnell	0 y dunnell
Dofednod	0.5568 y dunnell	0.5917 y dunnell	0.0349 y dunnell	0.6432 y dunnell	0.0515 y dunnell
Wyau	0.0179 y achos o 360 32,345 y chwarter	37,197 y chwarter	4,852 y chwarter	37,197 y chwarter	0
Llaeth	0.0276 y 1000 litr	0.0373 y 1000 litr	0.0097 y 1000 litr	0.0405 y 1000 litr	0.0032 y 1000 litr
Pysgod heblaw brithyllod	2.1265 y dunnell o gynnyrch wedi'i farchnata	2.1660 y dunnell o gynnyrch wedi'i farchnata	0.0395 y dunnell o gynnyrch wedi'i farchnata	2.3546 y dunnell o gynnyrch wedi'i farchnata	0.1885 y dunnell o gynnyrch wedi'i farchnata
Brithyllod	1.6840 y dunnell o fwyd pysgod	2.5963 y dunnell o fwyd pysgod	0.9123 y dunnell o fwyd pysgod	2.8222 y dunnell o fwyd pysgod	0.2260 y dunnell o fwyd pysgod

### Tabl 3: enghraifft ddarluniadol o effaith ariannol debygol y cynigion ar sector nodweddiadol yn yr NRCP

Sector buchol Prydain Fawr		Sylwadau
Trwybwn blynyddol tybiedig (cyfanswm nifer y carcassau a brosesir)	2,284,913	
Tâl cyfredol fesul carcass yn unol ag Atodlen 1	£0.5106	
<b>Cyfanswm y taliadau a anfonebwyd i'r sector yn ystod blwyddyn ariannol 2023 i 2024</b>	<b>£1,166,676</b>	
Cyfradd arfaethedig fesul carcass 2024 i 2025	£0.7007	
<b>Taliadau a anfonebir i'r sector yn ystod blwyddyn ariannol 2024 i 2025</b>	<b>£1,383,857</b>	Rydym yn disgwyl y byddai'r taliadau newydd yn dod i rym yn ystod hydref 2024, felly byddai'r tâl yma yn cynnwys 6 mis ar y gyfradd gyfredol a 6 mis ar gyfradd newydd 2024 i 2025.
Cyfradd arfaethedig fesul carcass 2025 i 2026	£0.7617	
<b>Taliadau a anfonebir i'r sector yn ystod blwyddyn ariannol 2025 i 2026</b>	<b>£1,740,418</b>	Ffioedd blwyddyn lawn ar gyfradd newydd 2025 i 2026

Ar sail y rhagdybiaethau a ddisgrifir ym mharagraff 5, mae'r tabl yn dangos y byddai'r sector gwartheg yn talu cyfanswm o ryw £1.4 miliwn yn ystod 2024 i 2025, a rhyw £1.7 miliwn yn ystod 2025 i 2026.



## Tabl 4: enghraifft ddarluniadol o effaith ariannol debygol y cynigion ar gynhyrchydd nodweddiadol yn yr NRCP

Prosesydd buchol ym Mhrydain Fawr	Gwerth	Sylwadau
Trwybwn blynyddol tybiedig (cyfanswm nifer y carcasau a brosesir)	99,559	Byddai hyn yn cael ei ystyried yn gynhyrchydd cyfaint uchel nodweddiadol yn yr NRCP
Cyfradd bresennol fesul carcass yn unol ag Atodlen 1	£0.5106	
<b>Cyfanswm y taliadau a anfonebwyd i'r prosesydd yn ystod blwyddyn ariannol 2023 i 2024</b>	<b>£50,835</b>	
Cyfradd arfaethedig fesul carcass 2024/25	£0.7007	
<b>Taliadau a anfonebir i'r prosesydd yn ystod blwyddyn ariannol 2024 i 2025</b>	<b>£60,298</b>	Rydym yn disgwyl y bydd y taliadau newydd yn dod i rym yn ystod hydref 2024, felly bydd y tâl yma yn cynnwys 6 mis ar y gyfradd gyfredol a 6 mis ar y gyfradd arfaethedig ar gyfer 2024 i 2025.
Cyfradd arfaethedig fesul carcass 2025/26	£0.7617	
<b>Taliadau a anfonebir i'r prosesydd yn ystod blwyddyn ariannol 2025 i 2026</b>	<b>£75,834</b>	Ffioedd blwyddyn lawn ar gyfradd arfaethedig 2025 i 2026

Ar sail y rhagdybiaethau a ddisgrifir ym mharagraff 5, mae'r tabl yn dangos y byddai prosesydd buchol â thrwybwn uchel nodweddiadol yn talu rhyw £60,000 yn ystod 2024 i 2025, a rhyw £75,000 yn ystod 2025 i 2026.

## Yr effaith ddisgwyliedig ar fusnesau

7. Y newidiadau arfaethedig hyn fyddai'r addasiadau cyntaf i Atodlen 1 ers 2011, felly fel rhan o'r ymgynghoriad yma, rydym yn gofyn am eich barn ar y cwestiynau canlynol i'n helpu i ddeall yn well sut y gallai'r newidiadau effeithio ar y rhanddeiliaid sy'n rhan o'r cynllun:

Pa effaith fyddech chi'n disgwyl i'r cyfraddau diwygiedig ei chael ar faint eich elw chi?

A fyddech chi'n disgwyl amsugno'r gost ychwanegol yma neu ei throsglwyddo i'ch cwsmeriaid?

- amsugno
- trosglwyddo
- arall
- ddim yn gwybod

Sut rydych chi'n meddwl y byddai'r adolygiad yma o ffioedd yn effeithio ar y galw am eich nwyddau a'ch gwasanaethau?

# Cefndir

1. Mae'r NRCP yn helpu i ddiogelu iechyd pobl ac yn rhoi sicrwydd ynghylch diogelwch a safonau bwyd. Mae'r rhaglen yn rhan o [Gynllun Rheoli Cenedlaethol Blyneddol y Deyrnas Unedig \(UK MANCP\)](#) sef fframwaith y systemau rheoli swyddogol sydd ar waith ar gyfer cyfraith bwyd anifeiliaid a bwyd ac ar gyfer iechyd anifeiliaid (gan gynnwys anifeiliaid dyfrol ac iechyd gwenyn) a rheolau lles anifeiliaid. Ar hyn o bryd mae'r rhaglen yn ymdrin â'r canlynol:
  - cig coch
  - cig dofednod
  - pysgod wedi'u ffermio
  - wyau
  - cig hela gwyllt a chig hela wedi'i ffermio
  - mêl
  - llaeth
  - casinau selsig

## Casglu a dadansoddi samplau

2. Ym Mhrydain Fawr mae dros 30,000 o samplau yn cael eu cymryd a'u dadansoddi bob blwyddyn sy'n cynnwys y canlynol:
  - tua 25,000 o samplau cig coch a chig dofednod a gymerir mewn lladd-dai gan arolygwyr
  - tua 5000 o samplau ar ffermydd gan swyddogion iechyd anifeiliaid
  - samplau brithyllod a gymerir gan arolygwyr CEFAS
  - samplau eogiaid gan y Gyfarwyddiaeth Forol
  - samplau mêl gan yr Uned Wenyn Genedlaethol
  - samplau wyau gan APHA a Llywodraeth yr Alban
3. Mae rhaglen samplu yn cael ei chytuno gyda'r asiantaethau casglu bob mis Medi mewn cyfarfod cynllunio blyneddol. Anfonir y samplau a gesglir ym Mhrydain Fawr at Fera Science Ltd i'w dadansoddi. Mae'r dulliau dadansoddi wedi'u hachredu yn unol ag ISO 17025 ac wedi'u dilysu yn unol â'r gofynion ym Mhenderfyniad Comisiwn yr UE [2002/657/EC](#).
4. Rheolir costau'r rhaglen drwy Gytundebau Lefel Gwasanaeth rhwng y VMD a'r asiantaethau casglu. Mae'r egwyddorion ar gyfer codi ffioedd wedi'u gosod gan Drysorlys EF yn [Managing Public Money](#). Mae'r egwyddor sylfaenol yn dweud mai'r dull safonol yw gosod ffioedd ar lefel sy'n adennill y costau llawn. Mae'r dull yma o adennill y costau llawn yn golygu mai'r sawl sy'n cael ei reoleiddio sy'n ysgwyddo

cost y gwaith rheoleiddio, yn ogystal â sicrhau nad yw'r VMD yn elwa o ffioedd nac yn gwneud colled sydd wedyn yn gorfod cael ei thalu drwy gymhorthdal gan Defra neu'r Llywodraeth ehangach.

## Cyd-destun deddfwriaethol a thiriogaethol


5. Mae'r polisi ar weddillion a gwyliadwriaeth gweddillion wedi 'u datganoli yn y Deyrnas Unedig ond yn ymarferol, y VMD sy'n arwain ar yr NRCP ar gyfer Prydain Fawr. Mae'r VMD yn gweithio mewn partneriaeth agos â Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban. Mae Tabl 5 yn dangos dadansoddiad rhanbarthol rhanddeiliaid yr NRCP. Dangosir hyn hefyd yn graff 2.
6. Mae'r gofyniad ynglŷn â rheoli gweddillion mewn Cynhyrchion sy'n Deillio o Anifeiliaid (POAO) yn ofyniad yn y ddeddfwriaeth ddomestig er mwyn sicrhau diogelwch bwyd, ac mae'n deillio o sawl darn o gyfraith yr UE a ddargadwyd
  - Cyfarwyddeb 96/23/EC – sy'n amlinellu dulliau samplu ac amledd profion
  - Cyfarwyddeb 96/22/EC – sy'n amlinellu dulliau o ymdrin â sylweddau gwaharddedig
  - Rheoliad Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid 2015 sy'n trosi'r ddau ddarn o ddeddfwriaeth uchod ac sy'n darparu ar gyfer pwerau gorfodi
  - Rheoliad Rheolaethau Swyddogol 2017 sy'n cydgrynhoi'r gofynion ar gyfer rheolaethau swyddogol
  - Rheoliadau Taliadau am Wyliadwriaeth Gweddillion 2006
7. Mae'r gofyniad ynglŷn â rheoli gweddillion mewn POAO hefyd yn rhan o rwymedigaethau rhyngwladol ar fesurau iechydol a ffytoiechydol (SPS) – ac felly maent wedi'u cysylltu'n gynhenid â masnach. Dangosir hyn yn fwyaf eglur yn achos yr Undeb Ewropeaidd, sy'n cymeradwyo partneriaid masnachu yn benodol ar gyfer gwahanol fathau o POAO o dan [Reoliad 2021/405](#) ar sail eu rheolaethau gweddillion.
8. Mae Prydain Fawr wedi'i rhestru yn yr atodiad i'r Rheoliad yma, ac mae'r gymeradwyaeth yn dibynnu ar a) bod gan Brydain Fawr gynllun rheoli gweddillion ar waith sy'n cyfateb i safonau'r UE a b) bod ein cynlluniau a'n canlyniadau yn cael eu cyflwyno i'r UE yn flynyddol.
9. Heb fod rheolaethau gweddillion o'r fath ar waith i fodloni'r safonau hyn, allen ni ddim rhoi sicrwydd ynghylch ansawdd a diogelwch ein POAO i farchnadoedd rhyngwladol, a fyddai'n cael effeithiau trychinebus ar gyfer cyllid ac enw da masnach y Deyrnas Unedig.

## Tabl 5: lleoliad rhanbarthol rhanddeiliaid yn yr NRCP

<b>RHYWOGAETH</b>	<b>LLOEGR</b>	<b>CYMRU</b>	<b>YR ALBAN</b>
Gwartheg	80%	9%	11%
Moch	82%	8%	9%
Defaid	78%	10%	11%
Ceffylau	100%	0	0
Dofednod	88%	9%	3%
Brithyllod	0	0	100%
Eogiaid	0	0	100%
Llaeth	73%	9%	18%
Cig hela	d/g	d/g	d/g
Wyau	d/g	d/g	d/g

Mae'r tabl yn dangos bod mwy na 70% o'r busnesau ym mhob sector sy'n dod o dan yr NRCP yn Lloegr heblaw am frithyllod ac eogiaid sydd i gyd wedi'u lleoli yn yr Alban.

## Graff 2: Lleoliad rhanbarthol rhanddeiliaid yn yr NRCP



Mae'r graff yn dangos bod mwy na 70% o'r busnesau ym mhob sector sy'n dod o dan yr NRCP yn Lloegr heblaw am frithyllod ac eogiaid sydd i gyd wedi'u lleoli yn yr Alban.

## Elfennau cost yr NRCP

10. Mae gan yr NRCP y prif elfennau cost canlynol sydd i gyd yn ofynnol er mwyn i'r rhaglen gael ei chyflawni. Mae'r VMD, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban yn gweithio'n agos gydag amrywiol bartneriaid cyflenwi arbenigol fel Fera Ltd, FSA, CEFAS, APHA ac eraill i gyflawni agweddau ar y rhaglen.

- i. Costau contractau allanol
  - a. costau samplu
  - b. costau profi
  - c. costau prosesu
  
- ii. Ffactorau allanol eraill sy'n effeithio ar gostau
  - a. Iefelau cynhyrchu rhywogaethau
  - b. Cytundeb Gwasanaeth Tymor Hir ar gyfer profi samplau
  
- iii. Costau mewnol VMD
  - a. costau staff a gorbenion i gyflawni'r cynllun.

## Rôl asiantaethau casglu

Partner dan contract	Rôl
Fera Ltd	Dadansoddi'r holl samplau
APHA	Casglu samplau ar ffermydd da byw
APHA, Uned Genedlaethol Gwenyn (NBU)	Casglu samplau o ffermydd gwenyn
APHA, Arolygiaeth Marchnata Wyau (EMI)	Casglu wyau (yng Nghymru a Lloegr)
CEFAS	Casglu samplau brithyllod (yng Nghymru a Lloegr)
Asiantaeth Safonau Bwyd	Casglu samplau mewn lladd-dai (yng Nghymru a Lloegr)
Food Standards Scotland	Casglu samplau mewn lladd-dai (yn yr Alban)
Cyfarwyddiaeth Forol	Casglu samplau o eogiaid a brithyllod (yn yr Alban)
Llywodraeth yr Alban	Casglu samplau o wyau a mêl (yn yr Alban)

# Sut mae'r taliadau'n cael eu cyfrifo ar gyfer pob sector

## Llaeth

11. I gyfrifo'r ffioedd a fydd yn gymwys ar gyfer profion llaeth, rydym yn gyntaf yn sicrhau amcangyfrif o gyfanswm y llaeth a gynhyrchir yn y Deyrnas Unedig ar sail data'r flwyddyn flaenorol. O hyn gallwn gyfrifo nifer y samplau y mae'n ofynnol inni eu cymryd a'r costau casglu a dadansoddi. Yna rydym yn cyfrifo'r tâl fesul 1000 litr o laeth sydd ei angen i adennill y costau hyn.
12. Mae'r holl samplau llaeth sydd i'w profi yn cael eu cymryd o ffermydd llaeth i sicrhau y gallwn olrhain tarddiad unrhyw weddillion a ganfyddir.
13. Gan fod rhyw 15,000 o ffermwyr llaeth yn y Deyrnas Unedig, efallai na fyddwn yn cymryd sampl o fferm benodol yn aml iawn, yn enwedig os yw'r cynhyrchiant yno yn fach.
14. Yn hytrach nag anfonebu pob ffermwr, rydym yn codi ffioedd ar broseswyr llaeth neu brynwyr llaeth sy'n casglu llaeth o ffermydd ac ar y ffermwyr llaeth hynny sy'n gwerthu llaeth yn uniongyrchol i'r cyhoedd (gwerthwyr uniongyrchol). Mae'r dull yma yn lleihau gorbenion y cynllun, ac mae'r ddeddfwriaeth yn caniatáu i bob llaethdy adennill costau profi'r llaeth o'r ffermydd y maen nhw'n prynu llaeth ganddyn nhw. Mae'r tâl rydyn ni'n ei godi ar bob llaethdy wedi'i seilio ar drwybwn llaeth y llaethdy hwnnw ac nid yw'n cael ei effeithio gan y cwestiwn a oes sampl wedi'i chymryd mewn unrhyw gyfnod penodol ai peidio.
15. Mae'n ofynnol i brynwyr a gwerthwyr uniongyrchol llaeth wneud datganiad blynyddol i'r Asiantaeth Taliadau Gwledig (RPA) sy'n manylu ar faint o laeth a/neu gynhyrchion llaeth a brynwyd neu a werthwyd fel y bo'n briodol. Y data yma y mae'r RPA yn ei ddarparu er mwyn i'r ffioedd sy'n ddyledus ar gyfer pob llaethdy gael eu cyfrifo ac er mwyn i anfonebau gael eu codi fel y bo'n briodol.
16. Mae prynwyr llaeth (a elwir hefyd yn Brynwyr cyntaf) yn cael eu hanfonebu bob 6 mis ac mae ffermydd sy'n gwerthu llaeth yn uniongyrchol i'r cyhoedd yn cael eu hanfonebu'n flynyddol.
17. Mae samplau llaeth yn cael eu cymryd ar y fferm gan Swyddogion Iechyd Anifeiliaid.



## Cig coch a chig dofednod

18. I gyfrifo'r taliadau a fydd yn gymwys i'r sector cig coch a chig dofednod, rydym yn gwneud y canlynol:

- sicrhau'r ffigurau ar gyfer amcangyfrif o gynhyrchiant pob math o dda byw ar gyfer y flwyddyn nesaf yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, ar sail data'r flwyddyn flaenorol a ddarperir gan Defra
- cyfrifo nifer y samplau y mae'n ofynnol inni eu cymryd a pha ddadansoddiad y mae angen ei wneud ar y samplau hynny
- pennu costau casglu a dadansoddi'r samplau

19. Yna byddwn yn cyfrifo'r ffi fesul carcass sy'n angenrheidiol i adennill y costau uchod.

20. Cyfrifir ffioedd lladd-dai dofednod o ddata trwybwn (lladd) wedi'i ddilysu a gyflenwir gan yr ASB a'r FSS.

21. Rydym yn codi anfonebau chwarterol ar gyfer yr holl ladd-dai a safleoedd prosesu cig, ar sail eu trwybwn wedi'i luosi gan y ffi fesul carcass. Mae'r tâl yn seiliedig ar nifer yr anifeiliaid sy'n cael eu prosesu gan fusnes mewn cyfnod penodol, yn hytrach na nifer y samplau a gymerir o'r safle hwnnw.

22. Mae samplau cig yn cael eu cymryd gan swyddogion yr ASB.

23. Ar gyfer lladd-dai a phroseswyr dofednod sydd â mewnbwn bach, efallai na fyddwn yn cymryd samplau bob chwarter.

## Pysgod

24. I gyfrifo'r taliadau am bysgod (ac eithrio brithyllod) rydym yn sicrhau amcangyfrif o gyfanswm y cynhyrchiant pysgod yn y Deyrnas Unedig ar sail data'r flwyddyn flaenorol. O hyn rydym yn cyfrifo nifer y samplau y mae'n ofynnol inni eu cymryd a'r costau casglu a dadansoddi fesul sampl. Yna gallwn gyfrifo'r tâl fesul tunnell o gynnyrch wedi'i farchnata sydd ei angen i adennill y costau hyn.

25. Ar gyfer eogiaid sy'n cael eu ffermio, rydym yn derbyn ffigurau blynyddol o eogiaid a gynaeafwyd ar ffermydd (yn ôl cyfanswm y pwysau ar ôl diberfeddu) gan Gomisiynwyr Ystâd y Goron am y flwyddyn galendr flaenorol. Yna bydd ffermwyr eogiaid yn cael eu hanfonebu ar sail y data yma.

26. Mae'r ffioedd ar gyfer ffermwyr brithyllod wedi'u seilio ar faint o borthiant brithyllod a gyflenwir gan felinau porthiant. Mae gweithgynhyrchwyr porthiant brithyllod yn talu'r ffioedd i Gymdeithas Brithyllod Prydain, sydd wedyn yn anfon y ffioedd ymlaen.
27. Mae samplau yn cael eu cymryd o ffermydd pysgod gan swyddogion o CEFAS yng Nghymru a Lloegr, neu gan y Gyfarwyddiaeth Forol yn yr Alban. Ni ellir cymryd samplau o fferm bysgod benodol yn aml iawn os yw ei chynhyrchiant yn fach. Felly, mae'r taliadau yn cael eu seilio ar drwybwn pysgod, yn hytrach nag os cymerir sampl mewn unrhyw gyfnod.

## Cig hela

28. I gyfrifo'r taliadau ar gyfer cig hela wedi'i ffermio, rydym yn sicrhau amcangyfrif o gyfanswm y cynhyrchiant ar sail data'r flwyddyn flaenorol. O hyn rydym yn cyfrifo nifer y samplau y mae'n ofynnol inni eu cymryd a'r costau casglu a dadansoddi fesul sampl. Gallwn ddefnyddio hyn i gyfrifo'r tâl fesul tunnell o gynnyrch sy'n cael ei farchnata sydd ei angen i adennill y costau hyn.
29. Mae'n rhaid i bob cyflenwr a phrosesydd cig hela fod wedi cofrestru gyda'r ASB. Mae'n ofynnol iddynt ddarparu data trwybwn i'r VMD yn chwarterol ac yna cânt eu hanfonebu ar sail y data trwybwn sy'n dod i law.
30. Mae samplau cig hela yn cael eu cymryd gan swyddogion yr ASB mewn lladd-dai.

## Wyau

31. Mae Arolygwyr Marchnata Wyau (EMIs) Defra yn casglu samplau o wyau o orsafoedd pacio yng Nghymru a Lloegr. Mae Swyddogion Marchnata Wyau (EMOs) yn gwneud yr un peth yn yr Alban.
32. Er mwyn lleihau'r baich gweinyddol ar gwmnïau wyau yn sgil y gofynion ynglŷn ag adrodd trwybwn ac anfonebu, mae gan y VMD gytundeb gyda Chyngor Diwydiant Wyau Prydain (BEIC). Y BEIC sydd bellach yn talu tâl gwylidwriaeth gweddillion wyau yn uniongyrchol i'r VMD gan adennill y costau fel y mae'n ei weld yn dda gan ei aelodau. Mae'r cytundeb hwn wedi arwain at arbedion sylweddol i'r diwydiant wyau mewn perthynas â gwylidwriaeth gweddillion.
33. Y tâl a delir gan y BEIC yw cost lawn rhedeg y rhaglen gwylidwriaeth statudol ar gyfer gweddillion meddyginiaethau milfeddygol a sylweddau penodol eraill mewn

wyau ym Mhrydain Fawr. Mae hyn yn cynnwys casglu a chludo samplau, costau dadansoddi, ac archwiliadau dilynol ar y fferm lle tarddodd canlyniadau nad ydyn nhw'n cydymffurfio â'r gofynion.

## Gwerth am arian

34. Mae gwerth am arian yn egwyddor allweddol sy'n sail i lywodraethu'r rhaglen gwyliadwriaeth gweddillion. Mae'r gweithdrefnau canlynol ar waith i sicrhau gwerth am arian:

- cytunir ar y rhaglen samplu gyda'r asiantaethau casglu mewn cyfarfod cynllunio blynyddol a nodir costau cytûn mewn Cytundebau Lefel Gwasanaeth (SLAs)
- anfonir samplau a gesglir ym Mhrydain Fawr at Fera Science Ltd, Efrog, i'w dadansoddi.
- rheolwr gweithrediadau'r VMD sy'n gyfrifol am drafod costau gweithredu gyda'r asiantaethau casglu. Y nod yw codi tâl ar bob sector mor gywir â phosibl am y costau gwirioneddol a ysgwyddir.
- Mae archwiliadau yn rhan allweddol o'r rhaglen, ar gyfer pob parti dan sylw: mae Fera ac AFBI yn labordai cyfeirio cenedlaethol dynodedig (NRLs) ac mae pob un yn cael ei archwilio oddeutu bob 18 mis
- mae'r VMD yn archwilio'r holl asiantaethau casglu samplau o bryd i'w gilydd

## Archwiliadau allanol

35. Mae Ewrop yn gyrchfan allweddol i gynnyrch y Deyrnas Unedig sy'n deillio o anifeiliaid gyda gwerthoedd masnach cyfartalog o £8 biliwn y flwyddyn. Mae Cyfarwyddiaeth Iechyd a Diogelwch Bwyd y Comisiwn Ewropeaidd, sy'n cael ei alw'n DG SANTE-F, yn anfon swyddogion i archwilio'r Aelod-wladwriaethau i sicrhau bod rheolaethau swyddogol yn cael eu cynnal yn briodol gan gyrff swyddogol. Mae DG SANTE-F hefyd yn arolygu gwledydd y tu allan i'r UE i wirio eu bod yn cymhwyso safonau cyfatebol ar gyfer nwyddau sy'n cael eu hallforio, sy'n gymwys i'r Deyrnas Unedig. Y VMD, sef yr Awdurdod Cymwys dynodedig ar gyfer meddyginiaethau milfeddygol, yw'r canolbwynt ar gyfer yr archwiliadau hyn. Yn gyffredinol, mae'r swyddogion hyn hefyd yn ymweld â ffermydd, lladd-dai, milfeddygfeydd, cyfanwerthwyr a Swyddfeydd Iechyd Anifeiliaid dros bythefnos i dair wythnos ac fe'u cydlynir gan y VMD mewn cydweithrediad â Defra, APHA a'r ASB.

36. Mae'r Deyrnas Unedig hefyd yn destun archwiliadau gan wledydd y tu allan i'r UE, a all fod naill ai ar ffurf holiaduron manwl, neu ymweliadau pwrpasol gan archwilwyr. Mae croesawu swyddogion masnach o drydydd gwledydd yn ddarn pwysig o waith sy'n dangos bod ein rheolaethau ar weddillion yn gadarn, i roi'r sicrwydd angenrheidiol i bartneriaid masnachu am ansawdd a diogelwch cynnyrch y Deyrnas Unedig.

## Ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus yma

37. Ar ôl diwedd yr ymgynghoriad yma, bydd y VMD mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban yn cyhoeddi ymateb ffurfiol gan y llywodraeth o fewn y cyfnod o 12 wythnos a argymhellir.

38. Byddai Offerynnau Statudol ar wahân yn cael eu gosod at ddibenion craffu yn Senedd y Deyrnas Unedig, Senedd Cymru a Senedd yr Alban cyn i'r taliadau newydd arfaethedig ddod i rym.

## Geirfa

NRCP	Mae'r <a href="#">Rhaglen Rheoli Gweddillion Genedlaethol</a> yn rhaglen statudol i gasglu samplau o gynhyrchion sy'n deillio o anifeiliaid ac sydd i fod i gael eu bwyta gan bobl. Mae'r samplau hyn yn cael eu profi i chwilio am weddillion sylweddau gwaharddedig amrywiol.
<a href="#">Rheoliadau Taliadau am Wyliadwriaeth Gweddillion</a> (Atodlen 1)	Mae Rheoliadau Taliadau am Wyliadwriaeth Gweddillion (Diwygio) 2011 yn nodi'r cyfraddau sydd i'w talu gan y sectorau sy'n dod o dan y rhaglen wyliadwriaeth.
POAO	Cynnyrch sy'n tarddu o anifeiliaid a fwriedir i gael ei fwyta gan bobl. Mae'r enghreifftiau'n cynnwys wyau, cig dofednod, selsig, a physgod.
Croes-gymhorthdal	Croes-gymhorthdal yw'r arfer o godi prisiau uwch ar un math o ddefnyddwyr er mwyn gostwng prisiau mewn modd artiffisial ar gyfer grŵp arall.
Managing Public Money	Cynhyrchir y ddogfen yma gan Drysorlys EF ac mae'n nodi'r prif egwyddorion ar gyfer ymdrin ag adnoddau mewn sefydliadau yn y sector cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig.
Trwybwn	Yn y cyd-destun yma, mae hyn yn cyfeirio at nifer yr anifeiliaid sy'n cael eu prosesu mewn lladd-dy.
AFBI	Sefydliad Bwyd-amaeth a Biowyddorau.